Community Lives Consortium

Supporting people to live the life they choose







# Hydref 2025

**Consortiwm Bywydau Cymunedol**

**24 Heol Walter, Abertawe SA1 5NN**

1 *'Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f10*

## Ynglŷn â'r Consortiwm Bywydau Cymunedol

Ein Datganiad o Ddiben - mae'r ddogfen hon yn ofynnol dan Ddeddf Cofrestru ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.




Mae'n rhaid i bob sefydliad rheoledig gael Datganiad o Ddiben, mae'r ddogfen hon:

- yn rhoi darlun i chi o'n sefydliad ac yn rhoi'r holl wybodaeth allweddol i chi ynglŷn â sut byddwn yn darparu cymorth, yn gweithio gyda chi, trefnu staff, a monitro a rheoli eich cymorth fel y byddwch chi neu eich anwylyd yn mwynhau'r canlyniadau gorau posibl.
- yn golygu y byddwn yn cael ein harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar sail y pethau a ddywedwn yn y ddogfen hon.
- yn rhoi gwybodaeth glir i chi am yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym. Wrth ddarllen hwn, os byddwch yn teimlo y dylem fod yn gwneud pethau yn wahanol, rhowch wybod i ni drwy ffonio Debbie Chegwen ar 01792 646640 neu anfon e-bost at debbie.chegwen@communitylives.org

**Cyflwyniad i'r Consortiwm Bywydau Cymunedol**

Rydym yn sefydliad nad yw'n gwneud elw sy'n cefnogi pobl anabl i fyw'r bywyd maen nhw'n ei ddewis yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn Ne Cymru.

Rydym wedi bodoli ers 1989 ac ar hyn o bryd rydym yn cefnogi tua 164 o bobl sy’n byw yn eu cartrefi eu hunain, ar eu pen eu hunain neu gyda hyd at 5 o bobl eraill sy’n byw yn eu tŷ. Rydym yn cyflogi tua 383 o staff cymorth ac rydym yn darparu 11,733 awr o ofal personol a chymorth i'r bobl hyn bob wythnos.

Mae'r rhan fwyaf o'n cymorth yn cael ei gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ac rydym yn cael ein rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Rydym yn Elusen Gofrestredig - Rhif Cofrestru 1161709, ac yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant - Rhif Cwmni 9442336
Rydym yn darparu Gofal Cartref yn ardal Partneriaeth Ranbarthol Bae'r Gorllewin.

## Pobl Allweddol



Yr Unigolyn Cyfrifol ar gyfer y Cymorth hwn yw Lynda Rosselli



- Mae hyn yn golygu mai Lynda sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros benodi'r rheolwyr sy'n darparu'r cymorth i chi, sicrhau bod y rheolwyr yn cael eu goruchwylio, a gwneud trefniadau cyflenwi dros dro pan fo'r rhain yn absennol o'r gwaith am fwy na 28 diwrnod.
- Mae'n rhaid i Lynda gyfarfod rhai o'r bobl a gefnogwn ac aelodau o'u teulu i gael gwybod beth maen nhw'n meddwl am y gwasanaeth a ddarperir.
- Mae'n rhaid i Lynda sicrhau hefyd ein bod yn casglu'r wybodaeth sy'n dweud wrthym i ba raddau mae'r gwasanaeth yn eich helpu i fyw bywydau hapus, gan roi cymaint o annibyniaeth a dewis i chi ag y gallwn.

Os yw Lynda yn absennol am fwy na 28 diwrnod, bydd Nick Day yn gweithredu fel yr Unigolyn Cyfrifol.



Mae Lynda wedi penodi 6 Rheolwr Ardal ac mae gan bob un y cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am rwydwaith o bobl sydd bob un yn derbyn cymorth. Mae'r rhain wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

 *'Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f10*

***Y bobl hyn yw:***



- Diane Jones -- Rheolwr Gweithredol

- Catherine Williams -- Rheolwr Ardal
- Michelle Thomas -- Rheolwr Ardal
- Jamie Locking -- Rheolwr Ardal
- Dean Bromham - Rheolwr Ardal
- Sheree Lewis -- Rheolwr Ardal
- Kelly Mainwaring -- Rheolwr Ardal Dros Dro

## Ynglŷn â'r Gwasanaeth a Ddarperir



Rydym yn darparu cymorth i bobl dros 18 mlwydd oed. Mae angen cymorth personol a chymdeithasol ar y bobl hyn.

Rydym yn cefnogi oedolion o bob oedran.

Mae angen cymorth ar y bobl hyn am amrywiaeth o resymau, yn cynnwys:



- mae ganddynt anabledd dysgu.
- mae ganddynt anabledd corfforol neu synhwyraidd
- mae ganddynt anhwylderau sbectrwm awtistig
- mae ganddynt anhwylder iechyd meddwl
- maen nhw'n byw gyda dementia
- maen nhw'n dangos ymddygiadau a all eu rhoi nhw neu eraill o'u cwmpas mewn perygl o niwed neu allgáu.



Pan fod angen cymorth arbenigol, rydym ninnau'n gallu cefnogi a darparu'r canlynol:

- Rheoli meddyginiaeth
- Rheoli epilepsi
- Rheoli problemau iechyd meddwl ac anhwylderau personoliaeth

- Rheoli Diabetes
- Rheoli Stomau
- Rheoli Polydipsia ac/neu Pica
- Cynnal iechyd y croen
- Rheoli nam ar y synhwyrau
- Rheoli tiwbiau bwydo Gastrostomi Endosgopig Trwy'r Croen (PEG)
- Cefnogi gofal diwedd oes

Lle y bydd angen i ni ddarparu hyfforddiant iechyd ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau hyn, bydd ein staff yn cael eu hyfforddi gan weithwyr proffesiynol iechyd cymwys.

Rydym yn darparu ystod o wasanaethau cymorth sy'n bodoli i wneud y gorau o'ch lles.
Wrth wneud hyn rydym yn helpu pobl i feddwl am y meysydd lles a geir yn Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.



## Sut mae'r Gwasanaeth yn cael ei ddarparu?

**Gweithio gyda chi a'ch cefnogwyr**

Os ydym yn eich cefnogi, byddwn bob amser yn ceisio cyfathrebu â chi mewn ffyrdd y gallwch eu deall. Os nad ydych yn gallu dweud wrthon ni beth rydych ei eisiau, byddwn yn casglu gwybodaeth ar sail ein harsylwadau ohonoch chi a'r ffyrdd personol rydych yn rhannu'r pethau rydych yn eu hoffi neu'n eu casáu. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda'ch Rheolwr Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol, Nyrs Gymunedol a'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n eich helpu i gael y cymorth sydd ei angen arnoch. Os nad ydych yn gallu mynegi eich dymuniadau neu nad ydych yn teimlo'n hyderus i wneud hyn, byddwn hefyd yn gweithio gydag aelodau o'ch teulu sy'n cymryd rhan weithredol, neu ffrindiau

neu eiriolwyr a gytunwyd. Rydym yn galw'r bobl hyn yn Gefnogwyr i chi.

Pan nad ydym yn gallu gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut rydych eisiau cael eich cefnogi, byddwn yn gwneud **penderfyniadau lles gorau** ar sail y wybodaeth sydd gennym a barn a chyfarwyddyd gweithwyr proffesiynol a'ch cefnogwyr eraill.




Byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi ar ffurf sydd mor hawdd â phosibl i chi ei defnyddio. Bydd hyn bob amser yn golygu bod gwybodaeth yn cael ei hysgrifennu mewn iaith syml gyda lluniau neu symbolau. Byddwn yn neilltuo amser i ddarllen gwybodaeth i chi. Byddwn hefyd yn defnyddio fideos a chyflwyniadau syml i helpu i sicrhau bod y wybodaeth mor ddefnyddiol â phosibl i chi.



**Gweithio gyda Chanlyniadau**

Mae ein polisi ar Gynllunio a Chofnodi eich bywyd yn datgan bod canlyniad da yn **rhywbeth sy’n bwysig i chi** er mwyn i chi wneud y gorau o'ch lles. Rydym yn credu y dylech fod yn rhagweithiol o ran gwneud i'r canlyniadau hyn ddigwydd yn eich bywyd. Byddant yn cael eu cofnodi mewn ffyrdd y gallwch eu deall ble bynnag y bo modd, a byddwn yn gwirio'n barhaus i ba raddau rydym yn llwyddo i'ch helpu i fwynhau'r pethau hyn fel y gallwn weithio gyda chi a'ch cefnogwyr i wella eich cymorth.

Byddwn yn cytuno â chi ar y canlyniadau tymor hirach sy'n canolbwyntio ar feysydd eang o'ch bywyd, fel yr awydd i fyw'n annibynnol. Fodd bynnag, o fewn hyn, byddwn yn cytuno ar lawer o ganlyniadau tymor byrrach neu hyd yn oed rhai dyddiol rydych chi eu heisiau, neu i wella eich bywyd.



Bydd unrhyw gofnodion a gedwir amdanoch yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018.




## Gweithio gyda phobl sy'n byw yn eich ardal leol

 *‘Mae’r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f10*

Mae yna ffordd o gefnogi pobl i fyw eu bywydau yn datblygu, dyma lle rydyn ni'n cael ein comisiynu i gefnogi pawb sy'n byw mewn ardal fach neu Ardal.



Lle mae hyn yn digwydd rydym yn gwahodd pawb sy'n byw yn yr ardal hon i gwrdd unwaith y mis i siarad am:

- beth sy'n gweithio yn eu cefnogaeth a'u bywydau,
- yr hyn nad yw'n gweithio
- a'r hyn y gallwn ei newid i wella pethau.

Rydym yn galw hwn yn dîm Newid.



Gan ddefnyddio'r cwestiynau hyn rydym yn trefnu pethau a fydd yn gwneud bywydau pobl yn well, ac yn gweithio gyda'n gilydd ar bethau y mae angen i ni eu newid i wneud pethau'n well i bobl.

Mae'r Timau Newid yn trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau y mae pobl eu heisiau. Rhennir gwybodaeth am y digwyddiadau hyn ar draws y sefydliad fel y gall pawb gymryd rhan os dymunant.



Mae rhai o'r pethau hyn yn ymwneud â phethau y gall pobl eu gwneud rhyngddynt eu hunain, ond mae yna bethau hefyd y mae pobl eisiau ymwneud mwy â phobl sy'n byw yn yr ardal o'u cwmpas. I helpu hyn mae ein timau Newid yn cynnwys y Cydlynwyr Ardaloedd Lleol ac aelodau eraill o'r gymuned a all helpu pobl i gymryd rhan mewn pethau sy'n bwysig iddynt.

Mae pob tîm Newid yn dewis pobl rydyn ni'n eu cefnogi i'w gynrychioli fel rhan o'n Grŵp Tenants Lives. Mae hyn yn dod â phobl yr ydym yn eu cefnogi o bob rhan o'r asiantaeth ynghyd i weithio gyda'n Unigolyn Cyfrifol a'n Bwrdd fel rhan o'n

7 *'Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f10*

proses lywodraethu.

Mae gan bob person yn yr ardal hon hefyd Gynllun Personol sy'n cael ei greu gyda nhw a'i adolygu bob chwarter.

**Pan ofynnir i ni ddarparu gwasanaeth i rywun:**




**Penderfynu ar y cymorth sydd ei angen arnoch**

Bydd aelod a enwir o'n tîm rheoli yn cwrdd â chi a'ch Cefnogwyr. Byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth sydd ar gael i ni amdanoch chi a'ch anghenion, fel Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar y Canlyniadau, i sicrhau ein bod yn deall y pethau sydd o bwys i chi yn glir.

Byddwn yn cytuno ar y Deilliannau Personol sy'n bwysig i chi ac ar y cynlluniau cymorth sydd eu hangen i wneud i'r rhain ddigwydd. Gallai'r rhain gynnwys cynlluniau i:



- Ddarparu gofal personol.
- Cynnal perthnasoedd neu weithgareddau sy'n bwysig i chi.
- Rheoli eich arian neu faterion ariannol.
- Rheoli unrhyw ymddygiadau a allai eich rhoi mewn perygl o niwed neu allgáu.
- Rheoli unrhyw anghenion gofal iechyd a allai fod gennych.



Byddwn yn sicrhau bod y bobl sy'n edrych ar eich anghenion cymorth yn ystyried yr holl risgiau a sut gall y rhain gael eu rheoli. Bydd ganddyn nhw’r sgiliau iawn i wneud yr asesiadau hyn hefyd.



Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i benderfynu ar yr oriau o gymorth a'r dechnoleg sydd eu hangen arnoch, ynghyd â sgiliau'r staff y byddwn yn eu cynnig i'ch cefnogi.

Byddwn hefyd yn asesu p'un ai fod staff hyfforddedig ar gael gennym i fodloni eich anghenion. Bydd ariannu'r cymorth hwn yn cael ei gytuno gyda'r sefydliad sy'n comisiynu eich cymorth. Gallwch hefyd brynu

oriau ychwanegol o gymorth os dymunwch.




**Byw gartref**

Byddwn yn amlygu unrhyw addasiadau neu faterion ynglŷn â'r lle rydych yn byw ynddo neu'n bwriadu symud iddo. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw faterion cyd-dynnu os ydych yn bwriadu rhannu eich eiddo â phobl eraill a allai fod yn derbyn cymorth hefyd.



Pan fyddwch yn symud i fyw gyda phobl eraill, byddwn yn cynllunio cyfleoedd i chi gael cyfarfod y bobl hyn fel y gallwn benderfynu p'un ai fyddwch yn cyd-dynnu â nhw.




**Dweud wrthych p'un ai gallwn eich cefnogi**

Cyn i ni ddechrau eich cefnogi byddwn yn rhoi'r canlynol i chi a'ch Cefnogwyr – Naill ai:

- Ddatganiad o'r rhesymau pam na allwn eich cefnogi ar hyn o bryd yn yr eiddo hwn. Rydym yn credu y gallwn fodloni anghenion y rhan fwyaf o bobl. Ond dyma rai rhesymau pam na allem eich cefnogi o bosib:
  - Ni allwn eich cefnogi'n ddiogel yn yr eiddo rydych yn bwriadu byw ynddo.
  - Nid ydym yn credu y gallwch fyw'n ddedwydd neu'n ddiogel gydag unrhyw bobl eraill sy'n byw yn yr eiddo.
  - Nid ydym yn credu y gallwn eich cefnogi'n ddiogel gyda'r oriau o gymorth a gomisiynwyd ar eich cyfer.
  - Nid oes gennym, neu ni allwn recriwtio, digon o oriau staff gyda'r hyfforddiant sydd ei angen arnoch.




Neu

- Mae canllaw defnyddiwr gwasanaeth yn gytundeb i gynnig cefnogaeth i chi.

  Bydd hwn yn cynnwys copi o'ch



Cynllun Personol, disgrifiad o'r oriau o gymorth a gynigir i chi a dadansoddiad o gost eich pecyn a'r costau bydd angen i chi eu talu. Byddwn hefyd yn rhoi copi o'n Gwybodaeth am ein Canllaw Gwasanaeth i chi sy'n rhoi'r wybodaeth gefndir i chi am ein sefydliad a sut rydyn ni'n gweithio.






**Cadw eich cynllun i'r funud**

Byddwn yn adolygu eich Cynllun Personol ar ôl y 7 diwrnod cyntaf o'n cymorth i chi. Os bydd eich cynllun yn newid, bydd hyn yn cael ei gytuno gyda chi. Byddwn yn rhoi copi i chi a'ch Cefnogwyr o'r cynllun diwygiedig.



Byddwn yn adolygu eich Cynllun Personol gyda chi a'ch Cefnogwyr bob tri mis o leiaf. Byddwn yn gwneud newidiadau ar sail eich profiadau o ddydd i ddydd a ph'un ai rydych yn gallu mwynhau'r bywyd mwyaf diogel, hapus ac annibynnol posibl.

Byddwch chi a'ch cefnogwyr yn cael cofnod ysgrifenedig o'r adolygiadau hyn.

**Sicrhau bod eich cymorth yn effeithiol i chi:**

**Datblygu a chynnal eich sgiliau byw.**

Bydd eich Rheolwr Cymorth Personol yn defnyddio **Cymorth Gweithredol** i ystyried eich trefnau bob dydd a llunio cynlluniau cymorth fel y gallwch gyfrannu cymaint â phosibl at wneud iddyn nhw ddigwydd.

Gallai hyn gynnwys eich:

 *'Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f10*




- gofal personol
- trefnau o ran llety
- bywyd cymdeithasol
- gweithgareddau addysgol a galwedigaethol fel mynychu dosbarthiadau a gwaith am dâl neu ddi-dâl
- chynnal cysylltiadau gyda ffrindiau ac aelodau teulu
- cadw'n ddiogel yn eich cartref yn cynnwys trefniadau ymgilio yn ystod argyfwng.

Mae pob cynllun cymorth cytunedig yn cynnwys asesiad o'r risgiau sydd ynghlwm ac yn disgrifio sut byddwn ni'n eich cefnogi i reoli'r risgiau hyn fel y gallwch gyflawni'r pethau sydd o bwys i chi. Rydym yn cefnogi **cymryd risgiau cadarnhaol**, sy'n golygu y byddwn yn gweithio gyda chi a'ch cefnogwyr i gydbwyso'r budd cadarnhaol i chi a ddaw yn sgil cymryd y risgiau hyn yn erbyn effeithiau negyddol ceisio osgoi risg yn gyfan gwbl.

Byddwn yn adolygu ac yn addasu'r cynlluniau hyn gyda'n tîm o staff yn wythnosol os oes angen. Os byddwn yn newid y cynlluniau hyn, byddwn yn eu trafod gyda chi a'ch cefnogwyr. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu eich cynllun yn ffurfiol gyda chi a'ch cefnogwyr bob 3 mis, a gallwch gael cofnod ysgrifenedig o hyn.

Byddwn yn adolygu ein cynllun hyfforddi ar gyfer y staff sy'n eich cefnogi bob tri mis i sicrhau eu bod yn cynnal y sgiliau sydd eu hangen arnynt i'ch cefnogi. Gallan nhw hefyd ystyried cyngor ein harbenigwyr mewn Symud a Thrin, Technoleg Gynorthwyol, Epilepsi a Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol a chyngor gweithwyr proffesiynol iechyd allanol.

Mae ein Timau Newid yn trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau gan gynnwys; boreau coffi, grwpiau cinio, nosweithiau sinema a gweithgareddau eraill a rennir y mae gan bobl ddiddordeb ynddynt.

Mae pobl wedi datblygu hyder ac ystod o sgiliau trefnu a chyflwyno trwy drefnu'r gweithgareddau hyn. Mae aelodau'r Tîm Newid bellach yn ymwneud â recriwtio ac mae ganddynt staff hyfforddedig. Mae'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi yn aelodau o'n Pwyllgor Rheoli ac mae rhai wedi cael profiad gwaith yn ein swyddfa ac wedi ennill cymwysterau o ganlyniad.



Byddwn yn cysylltu â Chydlynwyr Ardal Leol a reolir gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol fel y gallwn roi gwybod i chi am y pethau sy'n digwydd yn eich cymdogaeth leol a allai fod o ddiddordeb i chi. Gallwn eich helpu i gymryd rhan yn y rhain os bydd yn cael ei gytuno fel rhan o'ch Cynllun Personol.




**Bod mor gorfforol, meddyliol ac emosiynol iach â phosibl**

Byddwn yn eich cefnogi i gymryd rheolaeth dros eich iechyd personol lle bynnag y bo modd, yn cynnwys rheoli eich meddyginiaeth, a byddwn yn eich annog yn weithredol i wneud dewisiadau bywyd iach.

Os cytunir bod angen mwy o gymorth arnoch yn y maes hwn, byddwn yn eich cefnogi i fynd i'r holl apwyntiadau iechyd sydd eu hangen arnoch yn cynnwys eich Archwiliad Iechyd Blynyddol, ymweliadau i'ch meddyg teulu a sgrinio angenrheidiol. Byddwn yn cadw ac yn cynnal yr holl gofnodion iechyd perthnasol mewn ffordd gyfrinachol.

Byddwn yn cysylltu â rheolwyr gofal i'ch atgyfeirio os oes gennych bryderon iechyd penodol. Gall y rhain gynnwys Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion a fydd yn sicrhau eich bod yn cael y cyngor iechyd a'r offer cywir i'ch cefnogi'n effeithiol e.e. offer synhwyraidd, cymhorthion cyfathrebu, offer symud a thrin.

Mae cynlluniau ac asesiadau cysylltiedig â chymorth iechyd yn cael eu cwblhau a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae cofnodion yn cael eu cadw i fonitro iechyd meddwl a lles corfforol fel y bo'n briodol e.e. gweithgaredd strôc, cymeriant hylif, siartiau arsylwi ar ymddygiad.

**Rheoli Ymosodedd**

Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi mewn egwyddorion cymorth ymddygiad cadarnhaol sydd wedi'i achredu gan BILD.

Rydym yn ymrwymedig i ymyriadau nad ydynt yn gosbau yn achos phobl a all ddangos ymddygiad ymosodol neu dreisgar, er mwyn cynnal urddas yr unigolyn a'r berthynas rhwng y person a'u staff.



***Nid ydym*** yn credu mewn:

- Defnyddio poen fel dull o reoli
- Unrhyw ataliaeth sy'n cynnwys dal person ar y llawr
- Dulliau gweithredu seiliedig ar gosbi
- Cyfyngu ar ryddid pobl oni bai fod rheswm cyfreithiol am hyn

Mae CLC wedi addo bod yn rhan o'r Rhwydwaith Lleihau Cyfyngiadau ac maent wedi ymrwymo i leihau'r defnydd o arfer cyfyngol



**Cynnal perthnasoedd teulu a phersonol**

Byddwn yn cefnogi eich dewisiadau i gynnal perthnasoedd teulu a phersonol yn weithredol drwy:

- gynnal perthnasoedd parhaus gyda pherthnasau fel y byddwch yn teimlo eich bod mewn cysylltiad trwy gytundeb cynnwys perthnasau
- rhoi dewisiadau i chi ynglŷn â sut hoffech chi gynnal eich perthnasoedd e.e. ymweliadau, galwadau ffôn, e-bost, cyfryngau cymdeithasol, ysgrifennu llythyrau, cynllunio digwyddiad cymdeithasol
- eich helpu i gynnal perthnasoedd presennol a datblygu perthnasoedd newydd trwy ymuno â grwpiau cymunedol lleol sy'n seiliedig ar ddiddordebau cyffredin
- eich cefnogi i fwynhau perthnasoedd personol agos o'ch dewis chi mewn amgylchedd diogel a sicr.

**Bod a theimlo'n ddiogel**

Rydym yn ymrwymedig i'ch cadw'n ddiogel a byddwn yn gwneud hyn drwy:




- weithio o fewn ein Polisi Diogelu a chydymffurfio â gweithdrefnau Diogelu Awdurdodau Lleol
- hyfforddi ein holl staff mewn Diogelu ac ar sut i adnabod ac adrodd am amheuon a honiadau o gam-drin
- gweithio o fewn ein Polisi Cyllid: bydd y staff a'r rheolwyr yn eich cefnogi i reoli eich arian i leihau'r risg o gam-drin ariannol ac ecsbloetio
- darparu copi o'n gweithdrefn gwyno a chanmol mewn fformat hygyrch
- gweithio o fewn ein Polisi Iechyd a Diogelwch i hybu cartref a gweithle diogel ac iach i chi a'ch staff. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd
- darparu cynlluniau cefnogi/asesu risg personol ar gyfer anghenion unigol sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru pan fod angen
- sicrhau bod asesiadau Technoleg Gynorthwyol yn cael eu cynnal i ddarparu cyfarwyddyd, gwybodaeth ac offer wedi'u teilwra'n arbennig i anghenion unigol er mwyn hybu diogelwch. Mae hyn yn cynnwys synwyryddion ar ddrysau, synwyryddion epilepsi, monitorau symudiad ac ati.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau, hobïau, diddordebau unigol a mynediad at gyfleoedd datblygu**



Bydd eich asesiad yn cynnwys eich diddordebau, hobïau, dyheadau a'ch nodau datblygu. Byddwn yn gweithio gyda chi i gynllunio sut i gyflawni'r canlyniadau hyn.

Rydym yn defnyddio'r 'Model Cefnogi'n Weithredol' i gynnal sgiliau presennol a hybu dysgu sgiliau newydd. Mae hyn yn golygu cynllunio amrywiaeth o weithgareddau ar eich cyfer, fel tasgau domestig, hamdden, hobïau, gweithgareddau yn y gymuned leol. Efallai byddwn yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill fel y bo angen i'ch helpu e.e. Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd.

Byddwn yn hyrwyddo ac yn eich annog yn weithgar i ymuno

â'r ystod eang o Ddigwyddiadau a Gweithgareddau Cymunedol.



Gallwn eich cefnogi i gynllunio gwyliau a thripiau diwrnod yn ôl eich dewis. Gellir darparu staff i fod yn gwmni i chi os oes angen.



Rydym yn hybu dysgu a datblygu cyfleoedd trwy:

- ddarparu cyfleoedd gofal dydd fel y cytunwyd yn eich cynllun
- eich cefnogi i gyrchu cyrsiau colegau a chymuned
- eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli
- archwilio cyfleoedd ar gyfer profiadau gwaith
- gwneud defnydd o adnoddau dysgu ar-lein

## Cynnal eich cyfathrebu, iaith a diwylliant




### Cyfathrebu cynhwysol





Rydym yn hybu ac yn defnyddio'r 'Model Cyfathrebu Cynhwysol' i gyfathrebu yn yr iaith a'r dull sydd fwyaf priodol i chi. Gallai hyn gynnwys cyfieithu, lluniau, arwyddion, cardiau fflachio, amlgyfryngau, gwrthrychau cyfeiriol ac ati. Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi yn y dull hwn. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â therapyddion lleferydd ac iaith i gynnal asesiadau a datblygu cynllun cyfathrebu unigol i chi.

## Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru

Mae ein Polisi'r Gymraeg yn disgrifio sut byddwn yn eich helpu i dderbyn unrhyw ran o'r cymorth a roddwn i chi drwy gyfrwng y Gymraeg os mai dyma yw eich dewis.

Pan fyddwn yn cysylltu â chi a'ch cefnogwyr am y tro cyntaf, byddwn yn gofyn beth yw eich iaith ddewisol ar gyfer cyfathrebu parhaus. Wedyn, mae asesiad mwy manwl yn dilyn fel rhan o'r 'Cynnig Gweithredol' sy'n anelu at eich helpu i nodi unrhyw agwedd o'ch cymorth yr hoffech i ni ei chyflwyno drwy'r Gymraeg, hyd yn oed os nad Cymraeg yw eich iaith gyntaf. Gallai hyn gynnwys:



- rhoi gwybodaeth hygyrch i chi am y sefydliad a'ch cymorth yn y Gymraeg.
- cynnal cyfarfodydd ynglŷn â'ch cymorth yn y Gymraeg e.e. adolygiadau gwasanaeth
- sicrhau bod staff a rheolwyr yn cyfathrebu ac yn cynnal sgyrsiau â chi a'ch cefnogwyr yn Gymraeg
- defnyddio allweddeiriau a brawddegau Cymraeg sy'n bwysig i chi
- arwyddion Cymraeg yn y cartref e.e. toiled, ystafell ymolchi
- cadw cofnodion amdanoch chi a'r gwasanaeth a dderbyniwch yn Gymraeg
- gwirio p'un ai fod ymwelwyr i'ch cartref a gweithwyr proffesiynol eraill yn gallu cyfathrebu â chi yn y Gymraeg e.e. Meddygon Teulu, Rheolwyr Gofal
- sicrhau bod cyfryngau Cymraeg o'ch dewis ar gael i chi (e.e. teledu, rhaglenni radio, llyfrau, papur newydd, aps cyfrifiaduron)
- eich cefnogi i ddysgu neu wella eich sgiliau Cymraeg fel un o'ch deilliannau personol




Byddwn hefyd yn eich asesu a'ch helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol Cymraeg sy'n bwysig i chi e.e.

- Gemau Rygbi Cymru
- Eisteddfodau
- Dydd Gŵyl Dewi
- Gwrando ar Gorau Meibion

Mae deilliant eich 'Cynnig Gweithredol' yn cael ei gofnodi yn eich cynllun cyflenwi gwasanaethau sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru unwaith y flwyddyn o leiaf. Mae adolygiad rheolaidd o'r cymorth cytunedig yn cael ei gynnwys yn y

broses o fonitro cyflenwi gwasanaethau a deilliannau personol.

Er mwyn bodloni eich anghenion cymorth yn Gymraeg, byddwn yn:

● casglu gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg yr holl weithwyr ● darparu hyfforddiant i'r staff sy'n eich cefnogi i ddysgu neu wella'u sgiliau iaith Gymraeg

● recriwtio pobl sydd â'r sgiliau iaith Gymraeg gofynnol i'ch cefnogi.




Fel rhan o'ch asesiad am gymorth, byddwn yn eich helpu i archwilio agweddau o'ch diwylliant ac unrhyw gredau crefyddol sy'n bwysig i chi. Wedyn, byddwn yn cynllunio unrhyw gymorth sydd ei angen arnoch i fynegi eich hunaniaeth ddiwylliannol bersonol ac i ddilyn arferion crefyddol e.e. eich cefnogi i fynychu man addoli, cynllunio bwydlenni yn unol ag anghenion deiet arbennig, parchu eich dewisiadau gofal personol, eich cefnogi gyda'r dillad o'ch dewis.

## Trefniadau Staffio




Rydym yn trefnu ein gwasanaethau o amgylch Ardaloedd daearyddol. Mae'r Ardaloedd hyn yn cefnogi oddeutu 20 i 50 o bobl sy'n byw yn agos at ei gilydd.

Maen nhw'n byw ar eu pen eu hun neu gyda phobl eraill sy'n cael cymorth.

Rheolir y sefydliad gan ein Prif Weithredwr. Mae'n rheoli'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r Rheolwr Gweithrediadau sy'n rheolwr llinell ar y Rheolwyr Ardal. Maent hefyd yn cael eu cefnogi gan Gyfarwyddwr Busnes a Chyllid.

Mae gan bob Ardal Reolwr Gwasanaeth sydd wedi'i Gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Cefnogir Rheolwyr Ardal gan Reolwr Ardal Gymorth. Mae gan bob Ardal rhwng 50 a 70 o staff a rheolwyr sy'n darparu rhwng 2000 a 3000

awr o gefnogaeth bob wythnos.



Bydd gennych eich tîm staff eich hun a fydd yn darparu'r mwyafrif o gymorth uniongyrchol i chi ac fe'u rheolir gan Reolwr Cymorth Personol.

Mae ein Swyddog Ymgysylltu a Chyfranogiad yn darparu cefnogaeth i'ch helpu chi i fod yn weithgar wrth drefnu'r pethau sy'n bwysig i chi ac i gynnig cyfle i chi fod yn rhan o redeg ein cwmni.



Mae ein gwasanaethau busnes canolog yn rheoli arian y sefydliad, yn recriwtio a hyfforddi ein staff, ac yn sicrhau ein bod yn bodloni ein gofynion cyfreithiol. Mae'r Prif Weithredwr yn gweithredu fel Dirprwy ar gyfer Eiddo a Materion, dan oruchwyliaeth y Llys Gwarchod os oes gofyn. Wrth wneud hyn,
mae’n cael ei gefnogi gan ein Tîm Gwasanaethau i Denantiaid sy'n helpu pobl i reoli eu harian, hawlio budd-daliadau a thalu eu biliau.



## Niferoedd a Chymwysterau ein Tîm

**Nick Wilson - Prif Weithredwr**

Cymwysterau :
2013 - Rheoli Prosiect Prince 2 - APMG Rhyngwladol

2009 - 2011 Gradd Sylfaen (FDA) Dysgu yn y Sector Addysg Gydol Oes - Prifysgol Canterbury Christchurch

1992 - 1994 Diploma Ôl-raddedig, Dylunio Cyfathrebu - Prifysgol y Celfyddydau Llundain

1987 - 1990 BA (Anrhydeddau) Dylunio Graffeg, Prifysgol Brighton

1986 - 1987 Sylfaen Celf a Dylunio, Prifysgol Brighton

**Lynda Rosselli - Unigolyn Cyfrifol**



Cymwysterau - NVQ Lefel 4 Gofal, NVQ Lefel 4 Rheolaeth, Dyfarniad;

Aseswr D32/D33

Diploma Proffesiynol BTEC Uwch mewn Cymorth Ymddygiad

Cadarnhaol Paratoi ar gyfer Addysgu

Rheolwr Cofrestredig gydag AGC a Gofal Cymdeithasol Cymru ers 21/12/2007

**Ein Rheolwyr Ardal**

Mae Rheolwyr Ardal wedi'u Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

- **Diane Jones - Rheolwr Gweithrediadau**



Cymwysterau - Nyrs Gofrestredig Anfantais Meddyliol,
Diploma Lefel 5 QCF Arwain mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Gwobr Aseswr A1, Hyfforddwr Achrededig gyda PABM ar gyfer Rheoli Ymddygiad Positif
Wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

- **Catherine Williams - Rheolwr Ardal (Ardal 1)**



Cymwysterau - NVQ Lefel 4 mewn Gofal, NVQ Lefel 4 mewn Rheolaeth, Dyfarniad Aseswr D32/33, Tystysgrif Lefel 4 Wedi Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ers 5/02/2015



- **Michelle Thomas - Rheolwr Ardal (Ardal 2)**

Cymwysterau - QCFLevel 5 Care, dyfarniad Aseswr TACA, Tystysgrif, Tystysgrif addysgu Ôl-raddedig a sgiliau hanfodol Hyfforddwr achrededig gyda PABM ar gyfer Rheoli Ymddygiad yn Gadarnhaol Wedi Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru Trin Pobl ac Asesu Risg Tystysgrif Hyfforddwr Allweddol gan wasanaethau Edge Training.
Wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

- **Jamie Evans-Locking - Rheolwr Ardal ( Ardal 4 )**



Cymwysterau - QCFL Lefel 5 iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion
QCF Lefel 5 gwasanaethau preswyl i oedolion , tystysgrif addysgu Ôl-raddedig a sgiliau hanfodol Hyfforddwr achrededig gyda PABM ar gyfer Rheoli Ymddygiad Positif
Gofal Cymdeithasol Cofrestredig Cymru

- **Dean Bromham - Rheolwr Ardal (Ardal 5)**



Cymwysterau - QCFLlevel 5 Care, dyfarniad Aseswr TACA, Tystysgrif Hyfforddwr Allweddol Trin Pobl ac Asesu Risg gan wasanaethau Edge Training;
Wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

- **Sheree Lewis-Jones --- Rheolwr Ardal (Ardal 6)**

  Cymwysterau - NVQ Lefel 4 mewn Gofal; NVQ Lefel 4 Rheolaeth; Dyfarniad Aseswr A1; Tystysgrif Hyfforddwr Allweddol Asesiad Risg Lefel 4 Trin Pobl; Hyfforddwyr Trin Pobl ac Asesu Risg; Addysg a Hyfforddiant Lefel 3; Tystysgrif mewn Epilepsi a Chyfarwyddyd Buccal Midazolam; Modiwl Meddyginiaeth Allweddol; Modiwl Asesu Cymhwysedd Meddyginiaeth; Deall Modiwl Lefel 3 FfCCh nam ar y Synhwyrau. Wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

**Rheolwyr eraill yn yr Ardal**



- **Rheolwyr Cymorth Ardal -** - mae 5 o'r rhain.

  Mae gan bob un o'r rheolwyr hyn o leiaf un o'r cymwysterau canlynol:

  - Diploma FfCCh Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer
  - Arwain a Rheoli L5 mewn Gofal Iechyd a Chymdeithasol
  - Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheoli Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon.
  - L4 Professional Practice in Health and Social Care
  - L4 Preparing for Leadership and Management in Health and Social Care
  - NVQ 4 Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwasanaethau Gofal
  - NVQ 4 Rheolaeth (aseswyd mewn lleoliad gofal)
  - NVQ 4 Dyfarniad Rheolwr Cofrestredig
  - NVQ 4 Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion/Plant a Phobl Ifanc)
  - NVQ 4 Gofal

  Yn ychwanegol, mae ganddynt un o'r Dyfarniadau Aseswr canlynol
  Dyfarniad Hyfforddi, Asesu a Sicrhau Ansawdd
  Dyfarniad Aseswr A1 neu D32/33

  Mae ganddynt hefyd Dystysgrif Hyfforddwr Allweddol mewn Trin Pobl ac Asesu Risg gan wasanaethau Edge Training.

- **Rheolwyr Cymorth Personol -** mae tua 38 o'r rhain

  Mae'n rhaid i'r rheolwyr hyn feddu ar:

  - Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon neu gyfwerth o leiaf wrth gael eu penodi
  - Maent yn ymrwymo i gyflawni Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheoli Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon.

Yn ychwanegol, mae llawer ohonynt hefyd yn meddu ar un o'r dyfarniadau aseswr canlynol - Dyfarniad Hyfforddi, Asesu a Sicrhau Ansawdd, Dyfarniad Aseswr A1, D32/33



## Ein staff Ardaloedd

Ar draws yr holl Ardaloedd mae gennym oddeutu:

- 346 o Staff Cymorth

  Y cymhwyster gofynnol ar gyfer y swyddi hyn yw Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon neu gyfwerth (yn unol â Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru).

- 24 Gweithiwr Cynnal Achlysurol

  Y cymhwyster gofynnol ar gyfer y swyddi hyn yw Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon neu gyfwerth (yn unol â Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru).



**Y Rheolwyr Allweddol sy'n darparu gwasanaethau Cymorth Busnes yw:**

- Debbie Chegwen - Rheolwr Iechyd a Diogelwch a Gweinyddu Cymwysterau -

  NVQ Lefel 4 Rheolaeth;
  Tystysgrif Gyffredinol NEBOSH;
  BTEC Busnes a Chyllid
  Paratoi i Addysgu.

- Alana Thomas - Rheolwr Gwasanaethau i Denantiaid

  BSc (Anrhydeddau) Rheolaeth Busnes a Menter
  CMI L5 Rheoli a Arweinyddiaeth

- Joanne Davies - Rheolwr Adnoddau Dynol

  Cymwysterau - C.I.P.D. Lefel 7, Tystysgrif i Raddedigion mewn Personél a Datblygu, C.I.P.D. Cynllun PDS, C.I.P.D. Tystysgrif mewn Ymarfer Personél, I.O.S.H. Rheoli'n Ddiogel, I.L.M. Tystysgrif Lefel 3 mewn Rheolaeth Llinell 1af, Dyfarniad Lefel 2 ar gyfer Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle

- Rosanna Graham - Rheolwr dysgu a datblygu

  Diploma mewn Arweinyddiaeth a Rheoli
  Ymarferwr PRINCE2

Gwobr Asesydd: TAQA

Cwrs Ar ôl Dystysgrif mewn Addysg a Hyfforddiant

- David Liddiard - Cyfrifydd Ariannol
    - Cymhwyster CIMA
    - Aelod o Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheolaeth

**Lefelau Staffio - Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer gwasanaeth wedi'i deilwra**



Mae swm a lefel y cymorth sydd ei angen arnoch yn cael ei asesu'n unigol. Wedyn byddwn yn datblygu cynllun i fodloni eich anghenion ar gyfer cymorth dydd a nos. Bydd hyn yn cael ei gytuno gyda chi a'ch cefnogwyr a bydd yn cynnwys cyfuniad o gymorth unigol ac a rennir. Pan fod eich cymorth yn cael ei gomisiynu gan yr awdurdod lleol neu ddarparwr iechyd, bydd hyn yn cael ei gytuno gyda nhw. Gallwch brynu pecyn preifat gennym yn ogystal â'r cymorth sy'n cael ei brynu gan y comisiynydd.

Byddwch yn derbyn copi o'r Proffil Cymorth Personol sy'n nodi lefel y cymorth a dderbyniwch, y taliadau a fyddwch yn eu talu a'r costau a delir gan y comisiynydd.

Mae rota ar gyfer dyrannu staff i'ch cefnogi yn cael ei drefnu ar sail y cynllun hwn. Byddwn yn sicrhau bod gan y staff a'r rheolwyr yr hyfforddiant, sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i'ch cefnogi'n effeithiol ac yn ddiogel, yn cynnwys bodloni unrhyw anghenion cymorth arbenigol sydd gennych.



**Trefniadau goruchwylio a chymorth**

Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gymryd rhan mewn sesiynau goruchwylio chwarterol a sesiynau gwerthuso blynyddol gyda'u rheolwr llinell. Diben goruchwyliaeth yw helpu staff i fyfyrio ar eu hymarfer a sicrhau bod eu cymhwysedd proffesiynol yn cael ei gynnal. Mae hyn yn cynnwys adborth ynglŷn â'u perfformiad wrth gyflenwi cymorth a monitro'r cynnydd yn eu dysgu a'u datblygiad personol.

**Tasgau iechyd dirprwyedig arbenigol**



Lle mae angen tasgau gofal iechyd arbenigol, e.e. gweinyddu Buccolam Midazolam (neu feddyginiaeth achub arall), bydd gweithwyr iechyd proffesiynol allanol perthnasol yn arwain gyda'r asesiadau risg a chynllunio cymorth cyn dirprwyo'r tasgau hyn i staff.

Gall hyn gynnwys hyfforddiant arbenigol, cyngor, arweiniad a monitro a ddarperir gan y gweithiwr iechyd proffesiynol allanol e.e. Nyrs Epilepsi.

Byddwn yn cysylltu â'n swyddog Technoleg â Chymorth i sicrhau bod y synwyryddion Epilepsi yn addas i'r diben.

 *'Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f10*

Rydym yn cysylltu ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol i gefnogi anghenion a aseswyd, Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion ynghylch unrhyw gymhorthion neu addasiadau bach. Bydd staff yn cael hyfforddiant ychwanegol ynghylch unrhyw offer newydd.




**Rhaglen hyfforddi staff**

Nod ein rhaglen hyfforddi staff yw sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi gan staff cymwys a chymwys, sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau i ddiwallu eich anghenion cymorth penodol a'ch dewisiadau a'ch helpu i symud ymlaen yn eich bywyd. Rheolir y rhaglen gan yr Adran Datblygu Dysgu, sy'n gweithio gyda rheolwyr gweithredol i sicrhau bod anghenion dysgu a datblygu'r holl staff a rheolwyr yn cael eu diwallu.
Asesir gofynion hyfforddi ar gyfer pob aelod o staff yn unigol, yn dibynnu ar ystod anghenion gofal y bobl benodol y maent yn eu cefnogi. Gall hyn gynnwys y rhestr ganlynol:

- Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol
- Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol
- Anhwylder Sbectrwm Awtistig
- Meddyginiaeth
- Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu
- Cymorth Cyntaf
- Diogelu.
- Deddf Gallu Meddyliol
- Bwndel croen
- Rheoli Haint
- Ymwybyddiaeth Diogelwch Tân
- Hylendid bwyd
- Cyfathrebu Cynhwysol
- GDPR
- Cwynion
- Iechyd a Diogelwch

**Sefydlu** - Mae pob gweithiwr newydd yn cymryd rhan mewn rhaglen sefydlu. Ar gyfer staff cymorth a rheolwyr mae hyn yn bodloni'r safonau sefydlu a nodir gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae’r cyfnod sefydlu hwn yn cynnwys cyfuniad o fynychu cyrsiau, hyfforddiant ‘yn y swydd’ a chwblhau cyrsiau ar-lein.

**Hyfforddiant penodol sy'n gysylltiedig â chymorth unigol** - Mae'n rhaid i'r holl staff ddilyn rhaglen o hyfforddiant ychwanegol a gynlluniwyd i roi'r

wybodaeth a'r sgiliau penodol angenrheidiol iddynt fel y gallant ddarparu cymorth effeithiol a diogel sy'n canolbwyntio ar y person. Mae hyn yn seiliedig ar eich anghenion cymorth personol, ond gall gynnwys amrywiaeth eang o gyrsiau fel:




- Rheoli Epilepsi
- Deall ac ymateb i Ddementia
- Peg bwydo
- Gofal Stoma
- Sgiliau Cymraeg

**Hyfforddiant Diweddaru** - Mae'n rhaid i rai mathau o hyfforddiant gael eu ddiweddaru'n rheolaidd e.e. Diogelu, Meddyginiaeth, Cymorth Cyntaf, Diogelu Data, Iechyd a Diogelwch, Symud a Thrin, Diogelwch Tân.




Mae rhaglen flynyddol o gyrsiau y gall staff eu mynychu neu gyrsiau ar-lein y gallant eu cwblhau, i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'u gofynion hyfforddi.

Mae'r cyrsiau'n cael eu darparu gan gyfuniad o reolwyr mewnol sydd â chymwysterau hyfforddi ychwanegol (e.e. symud a thrin), gweithwyr proffesiynol iechyd (e.e. SALT) neu gan hyfforddwyr allanol cymeradwy eraill (e.e. Cymorth Cyntaf).

Mae gennym ein gwefan ddysgu ar-lein ein hun, 'Time to Learn', ac ar hyn o bryd rydym yn llunio portffolio o gyrsiau ac adnoddau dysgu y gall staff eu cyrchu ar unrhyw adeg i gefnogi eu dysgu a'u datblygu.

**Cymwysterau** - Mae gennym raglen gynhwysfawr ar gyfer staff cymorth a rheolwyr i gyflawni'r cymwysterau galwedigaethol argymelledig ar gyfer eu swyddi, yn unol â Fframwaith Cymwysterau 'Gofal Cymdeithasol Cymru', ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth â cholegau lleol i gynnig y cymwysterau hyn i staff.

**Cynllunio Datblygu Personol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus** - Mae Cynllun Datblygu Personol yr holl staff yn cael ei drafod a'i gofnodi yn ystod eu Goruchwyliaeth lle mae eu hanghenion dysgu a datblygu a'u

dyheadau yn cael eu nodi a'u cofnodi.
Mae cynnydd yn nysgu a datblygiad staff yn cael ei fonitro trwy'r broses oruchwylio ac arfarnu, gyda'r Cynllun Datblygu Personol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ym mhob sesiwn oruchwylio.




Mae'r holl gyrsiau hyfforddi a chyrsiau ar-lein a fynychir ac sy'n cael eu cwblhau yn cael eu cofnodi gan y tîm Datblygu Staff ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r rheolwyr.
Mae'r tîm Dysgu a Datblygu yn cyfarfod bob 3 mis gyda phob Rheolwr Ardal i:



● Adolygu lefelau cymwysterau a'r cynlluniau ar gyfer gwella'r rhain ● Adolygu'r hyfforddiant a gwblhawyd/sydd heb ei gwblhau eto gan y staff rhwydwaith
● Diweddaru dadansoddiad o anghenion hyfforddiant y rhwydweithiau ● Cynllunio a blaenoriaethu hyfforddiant yn y dyfodol i'r timau rhwydwaith a'r staff unigol.

## Llywodraethu a monitro ansawdd



Ein pwrpas yw 'Cefnogi Pobl i fyw'r bywyd maen nhw'n ei ddewis'

Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn sefydliad seiliedig ar aelodaeth gyda 194 o aelodau. Ymhlith yr aelodau hyn, mae:

- 42 o bobl a gefnogwn
- 18 o aelodau teulu
- 31 o bobl a gyflogwn
- 98 o bobl annibynnol.
- 5 asiantaeth broffesiynol

Mae'r bobl hyn yn ethol ein Pwyllgor Rheoli yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
Mae gan ein Pwyllgor Rheoli le i 12 aelod:

- 1 yn Denant, 1 yn aelod o'r teulu; Mae 6 yn unigolion annibynnol, mae gennym ni 1 swydd wag ar gyfer aelod o'r teulu; 1 swydd wag ar gyfer aelod o staff a 2 le gwag i Denantiaid.

- Ein Cadeirydd yw **Ian Davies.**

Mae ein Pwyllgor Rheoli yn cysylltu â'r isgrwpiau *Tenants Lives* a *Managing the Consortium* i gasglu barnau a gwybodaeth o bob rhan o'r sefydliad ynglŷn ag ansawdd ein gwasanaeth. Mae gennym hefyd Bwyllgor Iechyd a Diogelwch sy'n cyfarfod bob chwarter.

Mae ein staff a'n rheolwyr gweithredu yn casglu'r wybodaeth perfformiad ganlynol:

- Deilliannau personol cytunedig a chynlluniau cymorth sylfaenol ar gyfer pob person a gefnogwn.
- Yr holl achosion, pryderon, damweiniau, cwynion, achwyniadau a hysbysiadau, gyda manylion am sut cafodd y rhain eu hadrodd, sut y gweithredwyd arnynt a sut cawsant eu datrys.
- Y cymwysterau a'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan bob aelod o'r staff a'r dyddiadau pan gafodd y rhain eu cyflawni.
- Y cyflenwad o oriau cymorth o gymharu â'r oriau a gomisiynwyd ar gyfer, neu a brynwyd gan, bob person.
- Nifer yr oriau staff sydd ar gael i fodloni'r oriau cymorth gofynnol, lefelau absenoldeb a'r gyfradd drosiant yn cynnwys y rhesymau pam mae staff yn gadael.
- Y camau rheoli sy'n cael eu cymryd gan Reolwyr Ardal a Rheolwyr Cymorth Personol i fynd i'r afael â materion a gwella'r gwasanaeth.

Caiff y wybodaeth hon ei hasesu yn erbyn meini prawf Coch, Ambr, Gwyrdd cytunedig sy'n ein galluogi i:

- ddathlu a nodi ble mae gwasanaethau'n perfformio'n dda i bobl
- nodi pa faterion mae angen mynd i'r afael â nhw ac nad ydynt yn cael eu datrys
- gweithredu lle mae angen gweld gwelliant.

Mae unigolion sy'n byw yn Nhal Y Wern yn dweud wrthym beth yw eu barn am eu bywydau a chefnogaeth trwy ein Hasesiad Lles Personol.

Rydym yn casglu adborth gan staff am eu barn am eu cyflogaeth trwy ein Harolwg Cyflogeion Blynyddol. Mae ein Comisiynwyr hefyd yn dweud wrthym beth yw eu barn am ein gwasanaethau trwy Adolygiadau Gwasanaeth.

Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn cyfarfod ag o leiaf 10% o'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi i ddeall yn fwy manwl beth mae pobl yn ei brofi yn eu bywydau a chymorth.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau adroddiad o'r ymweliad hwn, caiff hwn ei drafod gyda'r rheolwyr perthnasol a nodir adroddiad cynnydd.

Bydd adroddiadau a chynlluniau o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli a byddant yn sail i'r adolygiad chwe-misol o ansawdd gofal.

**Gwneud cwynion**

Gallwch wneud cwynion mewn nifer o ffyrdd:




- Gallwch gwneud cwyn i unrhyw aelod o staff y Consortiwm Bywydau Cymunedol. Mae hyn yn golygu y gallwch siarad â pha rai bynnag o'r aelodau staff rydych chi'n teimlo'n fwyaf cyffyrddus gyda nhw.
- Gwneud cwyn ar lafar, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.
- Gallwch wneud cwyn mewn ysgrifen, trwy lythyr, e-bost neu destun neges. Gallwch anfon eich cwyn mewn e-bost at complaints@communitylives.org neu drwy destun neges i 07814779935.

Gall eich Rheolwr Cymorth Personol weithio gyda chi i ddatrys eich cwyn. Byddan nhw'n gwneud hyn o fewn 14 diwrnod, neu 28 diwrnod os ydych yn cytuno. Byddan nhw'n cytuno â chi ar gofnod ysgrifenedig o sut cafodd eich cwyn ei datrys.

Os ydych eisiau i rywun sy'n annibynnol oddi wrth eich gwasanaeth ddatrys eich cwyn, yna gallwn ofyn i swyddog ymchwilio drefnu hyn. Byddan nhw'n cytuno ar adroddiad ynglŷn â'r ymchwiliad gyda chi a beth maen nhw wedi ei ddarganfod. Gallai hyn gymryd hyd at 35 diwrnod. Os bydd hyn yn cymryd mwy o amser, byddan nhw'n rhoi gwybod i chi.

Gallwch hefyd ofyn i'r **Adran Gwasanaethau Cymdeithasol** ddatrys eich cwyn:



- Gallwch gysylltu â thîm cwynion Cyngor Abertawe ar 01792 637345, neu drwy anfon e-bost at complaints@swansea.gov.uk.

- Gallwch gysylltu â thîm cwynion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar 01639 763445, neu drwy anfon e-bost at complaints@npt.gov.uk

Gallwch hefyd gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru drwy ffonio 0300 790 0203 neu fynd i'w gwefan https://www.ombwdsmon.cymru/

Bydd Corff Llais y Dinesydd (Llais) yn cynrychioli lleisiau a barn pobl Cymru mewn perthynas â

gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

*nptandswansea.enquiries@llaiscymru.org*